**Cyfarfod Pwyllgor Cymru y BBC**
**Prifysgol Aberystwyth**
**COFNODION**

Dydd Mercher 4ydd Hydref 2023

**EITEMAU BUSNES**

1 Cyflwyniad a chofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru

2 Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru

3 Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd

4 Cynlluniau Comisiynu Fideo y Dyfodol

5 Cynulleidfaoedd

6 Cyllid

7 Unrhyw fater arall a chau'r cyfarfod

**YN BRESENNOL**

*Aelodau:*

- Elan Closs Stephens, Cadeirydd Dros Dro y BBC (Cadeirydd)
- Michael Smyth, Cyfarwyddwr Anweithredol; Aelod dros Ogledd Iwerddon
- Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, Y Cenhedloedd
- Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr, BBC Cymru
- Rhys Evans, Pennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi Cyhoeddus, BBC Cymru

*Gyda:*

- Nia Morgan, Uwch Bartner Busnes Cyllid (Arsylwi)
- Nick Andrews, Uwch Bennaeth Comisiynu Cynnwys (ar gyfer eitem 4)
- Gareth Davies, Uwch Bennaeth Marchnata (ar gyfer eitem 5)
- Jon Swell, Rheolwr Cyllid Adrannol (ar gyfer eitem 6)
- Mark Grinnell, Arweinydd Gweithredol (Ysgrifennydd)

**COFNODION PWYLLGOR CYMRU Y BBC**

**Dydd Mercher 4ydd Hydref 2023**

## 1. Cyflwyniad a chofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru

1.1. Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor (5ed Mehefin 2023) ac ni chyflwynwyd unrhyw wrthdaro.

1.2. Croesawodd y Cadeirydd Michael Smyth (Cyfarwyddwr Anweithredol, Aelod dros Ogledd Iwerddon) i Bwyllgor Cymru fel aelod dros dro nes i Gadeirydd newydd y BBC ymuno.

1.3. Byddai adolygiad yn y dyfodol o'r holl Bwyllgorau a'r cylchoedd gorchwyl, yn enwedig archwilio a risg pan benodir Cadeirydd newydd.

1.4. Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr y Cenhedloedd am gyflwyno datblygiadau Ar Draws y DU yn y cyfarfod cyn y Bwrdd.

## 2. Adroddiad Cyfarwyddwr BBC Cymru

2.1 Nododd y Cyfarwyddwr lwyddiant ffigurau cynulleidfa ar draws yr haf, yn enwedig cynnwys iPlayer gyda theitlau fel Steel Town Murders a Wolf.

2.2 Byddai BBC Cymru yn creu rhythm cyson o gynnwys sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd gwylio yn fwy cyson. Mae gosod cynnwys sy’n uchel o ran effaith yn ystod mis Awst, sy'n draddodiadol dawelach, wedi cynhyrchu gwerth.

2.3 Cafodd BBC Cymru berfformiad yr un mor gryf ar BBC Sounds yn ystod yr haf gyda theitlau fel Crossbow Killer a rhaglenni byw fel Wynne Evans a Bronwen Lewis.

2.4 Mae ail-lansio rhaglen frecwast BBC Radio Wales wedi gweld twf calonogol ar BBC Sounds ac yn y ffigurau RAJAR.

2.5 Mae Newyddion wedi bod yn dawelach yn ystod yr haf, ond mae’r tîm wedi bod yn gweithio’n galed ar stori gwaith dur TATA.

2.6 Mae tîm Strategaeth BBC Cymru yn gweithio ar werth cynulleidfaol ym maes chwaraeon.

2.7 Mae gwaith Addysg BBC Cymru yn cynnwys rhaglen digidol-yn-gyntaf ar S4C gyda’r cyflwynydd Siôn Thomas Williams, gan gynnwys ar y platfform Clic. Gall athrawon ddefnyddio cynnwys fel rhan o'r cwricwlwm ysgol cenedlaethol.

2.8 Mae’r tîm Bitesize yn ymweld â 40 o ysgolion uwchradd ledled Cymru, gan gwrdd â 21,000 o fyfyrwyr.

2.9 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cwblhau eu Hadolygiad Buddsoddi aml-flwyddyn. Arweiniodd hyn at benderfyniad cyllid ar gyfer Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

2.10 Trafododd y Pwyllgor bwysigrwydd stiwdios cynhyrchu Porth y Rhath. Mae’r cyfresi sydd wedi’u lleoli yno yn cynnwys Casualty a Pobol y Cwm.

2.11 Nodwyd bod Prawf Lles y Cyhoedd Radio Cymru 2 wedi'i gyhoeddi, ynghyd â'r ffaith ei fod wedi'i anfon at Ofcom am ddyfarniad.

## 3. Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd

3.1 Diweddarodd Cyfarwyddwr y Cenhedloedd ar gynlluniau ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith yn y cenhedloedd datganoledig, gyda chynnwys sain y rhwydwaith yng Nghaerdydd a Bryste yn cael eu cynhyrchu fel un o Gaerdydd.

3.2 Cafwyd gwelliannau sylweddol i'r ap newyddion, gydag amlygrwydd lleol yn sicrhau mwy o ddefnydd ar gyfer cynulleidfaoedd lleol.

3.3 Mae canllawiau cyfryngau cymdeithasol newydd i gyflwynwyr wedi cael eu dosbarthu ac wedi cael derbyniad da.

3.4 Mae staff Gweithrediadau Cynhyrchu, yn lleol, rhanbarthol ac ar draws y rhwydwaith, bellach yn rhan o un tîm technoleg, gan roi hwb i effeithlonrwydd gweithredol. Mae rheolwyr llinell yr unigolion hynny yng Nghymru yn parhau yn yr Is-adran.

## 4. Cynlluniau Comisiynu Fideo y Dyfodol

4.1 Fe wnaeth y Pwyllgor ganmol yr uchelgais i i dyfu cynnwys ag iddo werth uchel tra'n cydnabod bod cadw cynnwys celfyddydol, diwylliannol a hanes yn bwysig i ddefnyddwyr lleol, er efallai nad yw o reidrwydd o effaith uchel i'r rhwydwaith y tu allan i Gymru.

4.2 Trafododd y Pwyllgor bersonoleiddio cynnwys iPlayer yn well a photensial hyn ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd lleol.

4.3 Roedd materion eraill a drafodwyd yn cynnwys cylchoedd ariannu ac effaith cyd-gomisiynu.

4.4 Nododd y Pwyllgor sut gall mewnfuddsoddi o gwmnïau cynhyrchu annibynnol (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ond sy'n gwario arian yn y wlad) fod yn dda i gefnogi cwmnïau llai a'r seilwaith creadigol ehangach.

## 5. Cynulleidfaoedd

5.1 Mae BBC Cymru o flaen y rhagolwg ar ôl perfformiad cadarn yn ystod yr haf gyda theitlau allweddol (gweler 2.1) yn denu cynulleidfaoedd ym mis Awst.

5.2 Cafodd Chwaraeon ddiwedd cadarn i'r tymor (i'w briodoli i raddau helaeth ar berfformiad clwb pêl-droed Wrecsam). Roedd disgwyl i Gwpan Rygbi'r Byd gynyddu cynulleidfaoedd yn y chwarter presennol.

5.3 Mae'r tîm Cynulleidfaoedd bellach yn mesur perfformiad drwy gyfuno defnydd llinol ac iPlayer dros gyfnod treigl o 28 diwrnod.

5.4 Nododd y Pwyllgor hefyd y twf yng nghynulleidfa BBC Radio Wales o ran perfformiad RAJAR yn y tri chwarter diweddaf a chynnydd tebyg ar BBC Sounds.
5.5 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn clywed archwiliad manwl o berfformiad newyddion Rhanbarthol a newyddion Rhwydwaith.
5.6 Nodwyd bod tîm Cynnyrch iPlayer wedi bod yn defnyddio daearyddiaeth i helpu i yrru clicio drwodd yn dilyn trafodaeth gyda Grŵp Cynnyrch y BBC am bersonoleiddio. Byddai hyn yn arwain at adolygiad yn y dyfodol o berfformiad rhaglenni yn seiliedig ar ddaearyddiaeth.

**6. Cyllid**

6.1 Clywodd y Pwyllgor na fu unrhyw symudiad sylweddol o ran dyraniad incwm ers y diweddariad blaenorol.
6.2 Nododd trafodaeth ar wariant teledu rhwydwaith yng Nghymru fod absenoldeb cyfres His Dark Materials eleni yn golygu gostyngiad yn y gwariant rhwydwaith yng Nghymru ers y flwyddyn flaenorol. Roedd y gostyngiad uchod wedi'i wrthbwyso gan nifer o gyd-gomisiynau mawr, uchel eu heffaith, ym maes drama, gan gynnwys Wolf a phen-blwydd Dr Who yn 60 oed, a fyddai'n cynnwys rhifyn arbennig y Nadolig cyn dechrau saethu cyfres lawn yn 24/25. Byddai holl gwotâu rheoleiddiol teledu rhwydwaith yn cael eu bodloni'n gyfforddus.
6.3 Roedd gwariant y flwyddyn flaenorol ar gynnwys S4C yn uwch na'r flwyddyn bresennol oherwydd y darllediadau o angladd Ei Mawrhydi Y Frenhines.

**7. Unrhyw Fater Arall**

7.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor a phawb a gyfrannodd at y cyfarfod.

7.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf yn BBC Cymru, Y Sgwâr Canolog ar 21ain Chwefror 2024.

Daeth y cyfarfod i ben.